Oherwydd salwch sylweddol ymysg y plant yn ystod Chwefror bu'n rhaid gohirio ein Heisteddfod Gŵyl Ddewi. Er hynny bwriedir ei chynnal cyn diwedd y tymor ar ôl prysurdeb Eisteddfod yr Urdd.

Treuliodd plant Blwyddyn 5 a 6 wythnos yn y gwersyll ym Mhentywyn ddiwedd Chwefror a chawsant fwynhâd mawr yno yng nghwmni'r prifathro ac ysgolion eraill o'r cylch.

Cafodd aelodau o Glwb Sbondonics gyfle i weld sioe arbennig ar eu cyfer yn Theatr y Werin ar ddechrau'r tymor.

Llongyfarchiadau cynnes i un o gyn-ddisgyblion yr ysgol, Gari Lewis, Denver, ar gael ei ddewis i chwarae pêl-droed i dîm ieuenctid Cymru. Ymfalchïwn yn ei lwyddiant a dymuno'n dda iddo i'r dyfodol.